**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH ADFYWIO A THWRISTIAETH)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Adfywio a Thwristiaeth) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Gwener, 6 Tachwedd 2009 am 9.30am.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr H H Evans, S Frobisher, R W Hughes, T R Hughes a D A J Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd, Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L Jones) a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol, ynghyd ag Ian Jeffcott (Ymgynghorydd).

**473 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD****, dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes a ganlyn ar y sail ei bod yn debygol y gellid datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**474 PENODI PENNAETH ADFYWIO A THWRISTIAETH**

Bu'r Panel yn ystyried a chytunwyd ar restr o gwestiynau atodol i'w holi i'r ymgeisydd, yna aethpwyd ymlaen i'r cyfweliad.

Cyflwynodd yr ymgeisydd gyflwyniad ar bwnc a roddwyd iddo cyn y cyfarfod, ac yna gofynnwyd cwestiynau iddo gan y Panel ynghylch y cyflwyniad. Yna atebodd restr o gwestiynau atodol a holwyd gan y Panel.

Ar ôl ystyried rhinweddau'r ymgeisydd cytunwyd yn unfrydol nad oedd y Panel mewn sefyllfa i gynnig y swydd iddo. Trafodwyd y trefniadau interim a'r angen am ragor o drafodaethau gyda'r Panel ynghylch y trefniadau hynny ac ail hysbysebu'r swydd.

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r holl waith caled roedd y Pennaeth Personél a'r Swyddog Personél wedi'i wneud yn ystod y broses recriwtio. Hefyd diolchodd i Mr Ian Jeffcot am ei gymorth a'i gyngor.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa.*

Gorffennodd y cyfarfod am 12.30pm.

********